Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Gader
# Dolgellau
# Gwynedd
# LL40 1HY

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/05/2015**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gymunedol naturiol ddwyieithog ar gyfer disgyblion 11-16 oed a gynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd yw Ysgol y Gader. Mae ynddi 382 o ddisgyblion.

Daw'r mwyafrif o ddisgyblion o'r dref ac o'r pentrefi neu'r ardal wledig gyfagos. Mae 10.9% o'r disgyblion yn gymwys i brydau am ddim sydd yn is na'r canran cenedlaethol, sef 17.5%. Nid oes yr un disgybl yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae tri disgybl yn derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae 3.4% o'r disgyblion ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Yn ogystal, mae 26.3% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae'r ffigyrau hyn yn uwch na'r canrannau cenedlaethol. Mae 'Ty Meirion', sef uned i ddisgyblion ag anghenion ac anableddau dwys a chymhleth, yn rhan o'r ysgol.

Daw 29% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith a'r gweddill o gartrefi lle siaredir Saesneg. Gall 94% o'r disgyblion siarad Cymraeg i safon iaith gyntaf ac mae pob disgybl a ddilynodd y Gymraeg fel iaith gyntaf yn yr ysgol gynradd yn parhau i wneud hynny.

Mae'r uwch dim arwain yn cynnwys pennaeth mewn gofal, dirprwy bennaeth a phennaeth cynorthwyol. Ers Mai 2014, mae pennaeth ysgol leol wedi gweithredu fel pennaeth strategol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Y Gader yn 2014-2015 yw £5,070. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Gwynedd yw £5,517 a'r lleiafswm yw £4,066. Mae Ysgol Y Gader yn y pumed safle o'r 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae tuedd o welliant mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4
- Mewn tua hanner o'r gwersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd
- Mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae lefelau presenoldeb yr ysgol wedi cymharu'n dda â lefelau ysgolion tebyg
- Mae'r ysgol yn cynnig ystod fuddiol o weithgareddau allgyrsiol

Fodd bynnag:

- Mae absenoldebau staff mewn ychydig o bynciau wedi cael effaith andwyol ar ddatblygiad gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau lleiafrif o ddisgyblion
- Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer medrau wedi ei datblygu'n ddigon cyson
- Nid yw'r ysgol yn cynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yn ddigon effeithiol
- Nid oes gan yr ysgol strategaeth gadarn i wella ansawdd yr addysgu
- Nid yw'r drefniadaeth gwricwlaidd a phrofiadau yn y gwersi yn sicrhau dilyniant ieithyddol digon pwrpasol
- Nid yw gweithdrefnau gwrth-fwlio'r ysgol yn ddigon effeithiol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae'r pennaeth strategol yn cynnig arweiniad effeithiol ac wedi gweithio'n gadarn mewn cyfnod byr i herio tanberfformiad
- Mae'r uwch dîm rheoli yn gweithio'n frwd fel tîm er bod ganddynt ormod o gyfrifoldebau addysgu
- Mae defnydd uwch reolwyr o ddata yn datblygu'n briodol
- Mae cyfathrebu rhwng uwch reolwyr a rheolwyr canol wedi gwella'n sylweddol ers Medi 2014
- Ym mis Medi 2014, fe ailgyflwynodd yr ysgol drefn rheoli perfformiad wedi dwy flynedd o beidio
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ysgol wedi cryfhau ei systemau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant
- Ers Medi 2014, mae llywodraethwyr yn herio tanberfformiad yn fwy effeithiol

Fodd bynnag:

- Nid yw arweinwyr wedi arsylwi staff addysgu fel rhan o'r broses rheoli

perfformiad yn ystod y blynyddoedd diwethaf

- Nid yw'r gwelliannau diweddar i'r prosesau hunanarfarnu wedi cael digon o amser i ddylanwadu ar gysoni ansawdd y ddarpariaeth, yn enwedig ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau
- Nid yw rôl rheolwyr canol yn y broses rheoli perfformiad wedi ei datblygu'n llawn
- Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer datblygiad proffesiynol staff yn ddigon cynhwysfawr

## Argymhellion

A1 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4, gan gynnwys gwella medrau rhifedd, llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion

A2 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer medrau a sicrhau dilyniant ieithyddol cadarn i'r disgyblion

A3 Cryfhau'r gweithdrefnau gwrth-fwlio a sicrhau bod disgyblion yn chwarae rôl llawn ym mywyd yr ysgol

A4 Gwella ansawdd yr addysgu a chryfhau ansawdd y datblygiad proffesiynol cysylltiedig

A5 Cryfhau ansawdd yr arweinyddiaeth ar bob lefel a sicrhau bod arweinwyr canol yn chwarae rôl lawn mewn gwarantu ansawdd eu hadrannau

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Ers 2011, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi dangos tuedd o welliant ym mhob un o'r dangosyddion. Gwelwyd y perfformiad cryfach yn 2012 a 2014. Yn 2014, mae perfformiad yn y mwyafrif o'r dangosyddion yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y prif ddangosyddion yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Fodd bynnag, dim ond mewn tua hanner o'r gwersi mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyson dda.

Yn 2014, mae perfformiad yn y dangosydd sy'n cynnwys pump TGAU graddau A*-C gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi cynyddu o gymharu â pherfformiad 2013. Mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol ymhlith y 50% uchaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, yn 2014 yn unig mae perfformiad wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y trothwy lefel 2 wedi cynyddu ychydig ond nid oes patrwm clir o welliant. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim ac wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu.

Yn 2014, gwelwyd cynnydd da yng nghyfran y disgyblion sy'n ennill graddau A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth o'u cyfuno wedi tair blynedd o berfformiad sefydlog. Ers 2011, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol ymhlith y 50% uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, ac eithrio 2014, mae perfformiad wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu.

Wedi Blwyddyn 11, mae holl ddisgyblion yr ysgol yn aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant amser llawn.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd a'r pynciau craidd yn unigol ar lefel 5 neu'n uwch yn dangos tuedd clir o welliant. Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch a lefel 7 neu'n uwch yn dangos darlun mwy sefydlog.

Yng nghyfnod allweddol 4, ceir bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn llawer o ddangosyddion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o'r dangosyddion, er bod yna fwlch arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched, mae'r ddau grŵp o ddisgyblion yn perfformio'n well na'u cyfoedion mewn ysgolion tebyg.

Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yn gymharol fach ac yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyflawniad disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yn dangos tuedd o welliant yn enwedig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, mae'r darlun yn fwy amrywiol. Gwelir y cyflawniad gorau mewn Saesneg ond nid yw perfformiad yn y pynciau craidd eraill wedi bod cystal.

Mewn tua hanner o'r gwersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiaeth yn y cynnydd mae disgyblion yn ei wneud ac mae absenoldebau staff mewn ychydig o bynciau wedi cael effaith negyddol ar ddatblygiad gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau lleiafrif o ddisgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn cydweithio'n effeithiol mewn parau. Mae'r mwyafrif yn cyflwyno eu syniadau'n aeddfed ac yn synhwyrol yn ystod trafodaethau grŵp neu ddosbarth. Mae disgyblion yn siarad yn hyderus o fewn grwpiau bach ac yn cefnogi ei gilydd yn dda. Mae mwyafrif o'r disgyblion yn barod i gyfrannu ar lafar yn ystod gwersi ond dim ond lleiafrif sy'n cynnig atebion estynedig. Ac eithrio gwersi'r Gymraeg, mae llawer o ddisgyblion yn tueddu i ymateb trwy gyfrwng y Saesneg, hyd yn oed os yw'r wers yn cael ei chynnal trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr ychydig o achosion lle mae disgyblion yn ymateb yn y Gymraeg, maent yn siarad yn gywir ond yn tueddu i gyfathrebu'n dawel ac maent yn ddihyder. Mae gan fwyafrif o'r disgyblion eirfa bynciol gynhwysfawr.

Mae medrau ysgrifennu Cymraeg mwyafrif o'r disgyblion yn gadarn. Maent yn ysgrifennu at ystod o wahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd ac yn gallu cyfosod gwybodaeth yn briodol. Maent yn ysgrifennu'n gywir ac yn cymhwyso rheolau treiglo ac atalnodi yn gywir. Fodd bynnag, ar draws y pynciau, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn dewis ysgrifennu trwy gyfwng y Saesneg yn hytrach nag ymarfer a datblygu eu medrau ysgrifennu Cymraeg yn llawn. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn gallu cyrraedd casgliadau rhesymegol a dehongli testun yn effeithiol. Os oes angen cymorth gyda'u sillafu, mae disgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio geiriaduron i wirio a chywiro gwallau. Maent yn gallu trefnu eu gwaith yn rhesymegol mewn paragraffau. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn camddefnyddio prif lythrennau ac yn gwneud gwallau treiglo yn y Gymraeg.

Mae gan y mwyafrif o ddisgyblion gamgymeriadau sillafu yn eu gwaith Saesneg. Mae llawer yn cymhwyso rheolau gramadegol Saesneg yn briodol. Fodd bynnag mae lleiafrif sylweddol yn cael trafferth defnyddio prif lythrennau'n gywir.

Mae gwaith ychydig o ddisgyblion yn flêr neu heb ei orffen.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn hyderus, gyda mynegiant priodol yn y Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn betrusgar wrth ddarllen yn y Gymraeg. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn gallu cywain gwybodaeth yn effeithiol ac yn gallu gwerthuso neu grynhoi gwybodaeth yn llwyddiannus ac yn gyflym. Mae disgyblion yn mwynhau ac yn elwa o ddefnyddio offer technoleg gwybodaeth gyfoes i ymchwilio i, a chasglu, gwybodaeth ond nid yw hyn yn arfer gyson ar draws ystod eang o bynciau.

Mae disgyblion yn ymarfer ystod eang o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ychydig iawn o bynciau. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ymarfer

ystod digon eang o fedrau TGCh yn ddigon aml ar draws ystod eang o bynciau. Er eu bod yn gallu ymchwilio, casglu gwybodaeth yn hyderus a llunio cyflwyniadau PowerPoint, nid ydynt yn ymarfer uwchfedrau TGCh yn rheolaidd.

Dim ond mewn ychydig o bynciau y mae disgyblion yn ymarfer ystod priodol o fedrau rhif yn llwyddiannus. Maent yn gallu amcangyfrif arwynebedd siapau, defnyddio fformiwlâu, cyfrifo canrannau a llunio graffiau cymhleth. Mae disgyblion yn hyderus wrth fesur data syml. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae camgymeriadau yn y ffordd mae disgyblion yn llunio a labelu echelinau graffiau.

Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn ennill cymwysterau medrau hanfodol ar lefel sy’n cyfatebu i’w gallu.

**Lles: Digonol**

Mae rhan fwyaf o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol. Mae mwyafrif o’r disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn delio’n effeithiol ag achosion o fwlio. Mae llawer yn teimlo bod digon o gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon. Mae lleiafrif yn mynychu’r gweithgareddau hyn yn rheolaidd, megis clybiau rygbi merched, badminton, beicio mynydd a dringo.

Wedi tair blynedd o osod yr ysgol ymysg y 50% uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy’n gymwys i brydau ysgol am ddim, yn 2013-2014, roedd lefelau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg ac yn is na’r hyn a ddisgwylir. Mae data heb ei wirio sy’n cymharu presenoldeb eleni gyda’r un cyfnod y llynedd yn dangos cynnydd da. Mae absenoldebau anawdurdodedig yn isel. Ceir tuedd i fyny ym mhresenoldeb disgyblion sy’n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Yn ystod wythnos yr arolygiad, roedd ymddygiad llawer o ddisgyblion yn dda. Fodd bynnag, nid yw tua hanner o’r disgyblion yn teimlo bod ymddygiad yn dda yn yr ysgol. Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, nid yw’r ysgol wedi gwahardd disgybl.

Mae’r cyngor ysgol yn datblygu ei rôl yn addas. Mae aelodau yn cyfarfod yn wythnosol ac yn trafod materion megis ansawdd bwyd y ffreutur a chodi arian tuag at elusennau lleol. Er eu bod wedi cael mewnbwn i addasu’r gweithdrefnau gwrth-fwlio, nid ydynt yn chwarae rhan reolaidd mewn arfarnu a llunio polisïau. Yn ddiweddar iawn, mae’r cyngor wedi cychwyn y broses o adnabod rhinweddau addysgu a dysgu effeithiol. Mae prif ddisgyblion yr ysgol yn arwain y cyngor ysgol ac maent yn ysgrifennu adroddiad i lywodraethwyr yr ysgol yn dymhorol. Fodd bynnag, nid yw eu rôl fel disgybl lywodraethwyr wedi ei datblygu’n llawn.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol a medrau bywyd priodol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
| --- | --- |

**Profiadau dysgu: Anfoddhaol**

Mae cwricwlwm yr ysgol yn bodloni gofynion statudol y ddau gyfnod allweddol yn briodol. Mae’r ysgol yn darparu ystod addas o opsiynau cyffredinol a galwedigaethol. Ceir ystod fuddiol o weithgareddau allgyrsiol megis gweithgareddau chwaraeon, teithiau addysgol a theithiau theatr.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog wedi ei chryfhau yn ddiweddar. Fodd bynnag, nid yw’r ysgol yn cynllunio a chydlynu’n ddigon effeithiol i sicrhau cysondeb a her briodol i’r disgyblion hyn.

Mae’r ysgol wedi gweithredu’n addas yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i wella’r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd. Fodd bynnag, mae gormod o anghysondeb yn y ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm. Mae’r ysgol yn cyflwyno rhaglenni ymyrraeth i roi cymorth priodol i ddisgyblion â medrau llythrennedd gwan. Fodd bynnag, nid yw’r gwaith i hyrwyddo rhifedd a TGCh wedi ei ddatblygu’n ddigonol. Nid oes unrhyw ymyrraeth ychwanegol i ddisgyblion â medrau rhifedd gwan a dim ond mewn ychydig o bynciau priodol mae disgyblion yn ymarfer ystod eang o uwch fedrau rhifedd. Yn gyffredinol, nid yw’r cynlluniau i ddatblygu’r medrau wedi eu gweithredu’n ddigon trwyadl ar draws y cwricwlwm.

Rhoddir sylw buddiol i ddatblygu’r Cwricwlwm Cymreig drwy gynlluniau gwaith, wythnos weithgareddau a’r gwasanaethau boreol. Mae hyn yn galluogi disgyblion i gael dealltwriaeth ddyfnach o’u cymuned, eu hardal a’u gwlad. Mae gan yr ysgol gynllun iaith addas i hyrwyddo'r defnydd o’r Gymraeg tu fewn a thu allan i’r dosbarth. Fodd bynnag, nid yw’r drefniadaeth gwricwlaidd a phrofiadau yn y gwersi yn sicrhau dilyniant ieithyddol digon pwrpasol ar gyfer y disgyblion sydd wedi dilyn addysg gynradd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae’r ysgol wedi cyflwyno ychydig o weithgareddau i weithredu’n gynaliadwy, er enghraifft ailgylchu papur. Mae ganddynt gyswllt gwerthfawr gydag ysgol yn Alzeg, yr Almaen. Fodd bynnag, mae’r ddarpariaeth ar gyfer addysg a datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn gyfyng.

**Addysgu: Digonol**

Yn gyffredinol, mae llawer o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda ac yn gyfarwydd â datblygiadau diweddar yn eu maes. Mae gan yr athrawon hyn berthynas waith effeithiol gyda disgyblion ac yn rheoli ymddygiad yn dda. Maent yn rhannu nodau’r wers yn glir ac mae'r rhain yn cysylltu’n addas â dysgu blaenorol. Mae mwyafrif o athrawon yn sicrhau ffocws addas ar ddatblygu geirfa bynciol y disgyblion ac yn cynnig adborth llafar cyson. Fodd bynnag, mae absenoldebau staff ar draws ychydig o bynciau wedi cael effaith andwyol ar ddilyniant a phrofiadau lleiafrif o ddisgyblion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mewn tua hanner o’r gwersi, mae athrawon yn trefnu dechreuad symbylus i ddal dychymyg y disgyblion. Ceir cyflymder addas i’r wers gyda therfynau amser penodol i gwblhau tasgau yn effeithiol. Yn y gwersi hyn, gwelir ystod fuddiol o adnoddau er mwyn ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. Mae holi’r athro yn procio dealltwriaeth y disgyblion yn fedrus a threiddgar er mwyn ymestyn eu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhellach.

Mewn tua hanner o’r gwersi, nid yw’r addysgu yn ddigon llwyddiannus. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn ystyried anghenion disgyblion unigol yn ddigonol. O ganlyniad, mae gweithgareddau naill ai’n rhy gymhleth neu’n cynnig her annigonol. Mewn lleiafrif o achosion, mae natur y tasgau’n undonog a symudiad y wers yn rhy araf. Nid yw athrawon yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn deall y gwaith neu wedi

datblygu dealltwriaeth addas cyn symud ymlaen i'r dasg nesaf. Mewn ychydig o wersi, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfle i ddisgyblion weithio'n annibynnol a datblygu eu medrau meddwl yn llawn.

Mae marcio llawer o athrawon yn gyfoes ac yn cynnig adborth defnyddiol i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith. Mewn lleiafrif o bynciau, mae disgyblion yn cael eu cynnwys yn y broses asesu trwy weithgareddau hunanasesu ac asesu cyfoedion pwrpasol a rheolaidd. Mewn lleiafrif o achosion, mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth athrawon drwy fireinio agweddau o'u gwaith yn sgil yr arweiniad hwn.

Mae'r ysgol yn casglu ystod addas o wybodaeth am gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion bedair gwaith y flwyddyn yng nghyfnod allweddol 3, chwe gwaith ym Mlwyddyn 10 a phum gwaith ym Mlwyddyn 11. Mae'r system olrhain cynnydd yn arf effeithiol sydd yn cael ei defnyddio'n addas gan uwch reolwyr i fonitro safonau, cynnydd ac ymdrech. Mae rôl rheolwyr canol a phenaethiaid blwyddyn wrth olrhain cynnydd wedi ei datblygu'n addas yn ddiweddar. Mae'r ysgol yn rhoi sylw penodol i ddisgyblion ffiniol C/D TGAU ond nid yw rheolwyr yn canolbwyntio'n ddigon cyson ar olrhain cynnydd disgyblion mwy abl a thalentog.

Yn gyffredinol, mae adroddiadau i rieni yn addas; fodd bynnag, mae cynnwys lleiafrif ohonynt yn rhy arwynebol.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r tiwtoriaid dosbarth yn sicrhau bod addoli ar y cyd yn digwydd yn rheolaidd yn y sesiynau cofrestru boreol. Mae'r ysgol yn darparu ystod o gyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo iechyd a lles disgyblion, gan gynnwys bwyta ac yfed yn iach, trwy'r amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol i gyflwyno rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol drwy'r pynciau a thrwy ddefnyddio siaradwyr o asiantaethau allanol.

Mae gan yr ysgol bolisi ymddygiad priodol sy'n cael ei weithredu'n addas gan lawer o'r athrawon. Mae staff yr ysgol yn monitro a hyrwyddo presenoldeb yn briodol. Mae polisïau'r ysgol er mwyn diogelu disgyblion yn bodloni gofynion statudol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn delio ag achosion o fwlio'n ddigon effeithiol ac mae'r gweithdrefnau yn anghyson.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag amrediad o asiantaethau allanol i sicrhau bod disgyblion penodol yn derbyn cymorth priodol. Mae'r penaethiaid blwyddyn, nyrs a chwnselydd yr ysgol yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion pan fo'u hangen.

Mae'r ysgol yn cynnig cymorth addas ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae canolfan 'Tŷ Meirion' yn rhoi cynhaliaeth a chefnogaeth arbennig ar gyfer disgyblion ag anghenion dwys. Cryfder yn y ddarpariaeth yw'r modd y mae cymorthyddion dysgu yn cydweithio â'r athrawon i sicrhau bod disgyblion ag anghenion penodol yn gwneud cynnydd addas yn ôl eu targedau. Mae'r cydlynydd

cynhwysiad yn adolygu'r cynlluniau addysgu unigol yn rheolaidd gyda mewnbwn priodol y rhieni a'r disgyblion. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys targedau a strategaethau defnyddiol sydd yn cael eu gweithredu'n briodol gan y mwyafrif o'r athrawon.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae Ysgol y Gader yn ysgol gartrefol sydd yn darparu cyfle a mynediad cyfartal i bob disgybl. Mae'r ysgol wedi gweithio'n llwyddiannus i sicrhau bod disgyblion ag anableddau yn cael eu cynnwys yn llawn ym mywyd yr ysgol. Nodwedd o hyn yw'r cydweithio effeithiol gyda disgyblion a staff canolfan 'Tŷ Meirion'. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r ysgol yn gweithredu'n gadarnhaol i atal unrhyw ystrydebu. Serch hynny, mae lleiafrif o'r disgyblion a rhieni o'r farn nad yw'r staff yn trin pob disgybl yn deg a gyda pharch.

Yn gyffredinol, mae gan yr ysgol adnoddau priodol ar gyfer addysgu'r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r caledwedd TGCh yn gyfoes. Mae gan yr ysgol raglen flynyddol i wella adeiladau ac yn ystod y tair blynedd diwethaf uwchraddiwyd sawl rhan o'r ysgol. Ceir arddangosfeydd deniadol o waith disgyblion ar hyd y coridorau. Mae ansawdd y toiledau'n briodol. Mae safle'r ysgol yn gymen.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae'r ysgol wedi wynebu cyfnod ansefydlog sydd wedi arwain at ychydig o newidiadau staffio. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r uwch dîm rheoli wedi ysgwyddo cyfrifoldebau addysgu ychwanegol mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn lleihau effaith yr ansefydlogrwydd hwn ar ddisgyblion Blwyddyn 11. Yn y tymor byr, mae'r trefniadau wedi gwarchod safonau yng nghyfnod allweddol 4 ond wedi arwain at faich gwaith gormodol ymysg yr uwch dîm rheoli. O ganlyniad, nid oes ganddynt ddigon o amser i flaenoriaethu pob un o'u cyfrifoldebau strategol.

Penodwyd pennaeth strategol i'r ysgol ym mis Mai 2014 sydd yn bennaeth ar ysgol uwchradd arall o fewn yr awdurdod lleol. Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth strategol wedi llwyddo i osod cyfeiriad clir i'r ysgol drwy gryfhau strwythurau, atebolrwydd a chynyddu disgwyliadau ymysg y staff. Bellach, ceir diwylliant agored lle mae lefelau cyfathrebu wedi gwella'n sylweddol. Cryfhawyd yr uwch dîm rheoli ym Medi 2014 gyda phenodiad pennaeth cynorthwyol dros dro. Mae'r pennaeth mewn gofal, dirprwy bennaeth a phennaeth cynorthwyol newydd yn arwain yr ysgol yn gadarn o ddydd i ddydd. Mae ansawdd eu harweinyddiaeth wedi datblygu'n sylweddol yn ddiweddar o dan arweiniad effeithiol y pennaeth strategol.

Ers penodi'r pennaeth strategol, mae'r ysgol wedi elwa o arbenigeddau penodol aelodau eraill o uwch dîm ei ysgol mewn perthynas â rheolaeth ariannol, personél a chynllunio cwricwlaidd. Mae'r pennaeth strategol wedi ymateb yn gadarnhaol i faterion staffio.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno nifer o strategaethau priodol i leihau'r amrywiaeth yn ansawdd arweinyddiaeth ganol ac i gryfhau llinellau atebolrwydd. Ers Medi 2014, mae gan bob aelod o staff swydd-ddisgrifiad addas. O ganlyniad i fewnbwn y pennaeth strategol a chefnogaeth yr uwch dîm, mae gwybodaeth ac ymwybyddiaeth staff o'u rôl a systemau yn datblygu'n addas. Gweithreda bob aelod o'r uwch dîm fel person cyswllt i feysydd cwricwlaidd ac maent yn cynnig cefnogaeth addas i'w hadrannau.

Ers Medi 2014, ceir calendr o gyfarfodydd addas ar bob lefel er mwyn sicrhau mwy o gysondeb ac atebolrwydd. Mae'r agenda ar gyfer cyfarfodydd arweinwyr canol yn cynnwys ystod briodol o faterion, er enghraifft, arfarnu safonau, trafod deilliannau craffu ar waith ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae cofnodion y cyfarfodydd yn nodi camau dilynol priodol a chyfrifoldebau ar gyfer eu gweithredu yn ddigonol.

Ym mis Medi 2014, fe ailgyflwynodd yr ysgol drefn rheoli perfformiad wedi dwy flynedd o beidio. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi arsylwi staff addysgu fel rhan o'r broses hon. Mae targedau wedi'u seilio ar flaenoriaethau'r ysgol, ond nid yw targedau y rhan fwyaf o aelodau'r staff yn ddigon heriol.

Mae defnydd uwch reolwyr o ddata yn datblygu'n briodol ac yn ystod y misoedd diwethaf mae arweinwyr canol yn gwneud defnydd mwy miniog o ddata i fonitro ac arfarnu safonau.

Mae'r corff llywodraethol yn llawn ymwybodol o lefel yr her sy'n wynebu'r ysgol ac o'r agweddau sydd angen eu blaenoriaethu. Mae llywodraethwyr yn monitro cynnydd yn addas tuag at y gwelliannau hynny trwy gyfrwng is-grŵp craffu cryf sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r grŵp strategol hwn wedi gwerthuso canlyniadau monitro llyfrau sawl adran yn drylwyr ac wedi herio'r canfyddiadau yn effeithiol. Yn ddiweddar, mae llywodraethwyr wedi datblygu'n sylweddol yn eu rôl o weithredu fel ffrind beirniadol ac o ddwyn yr uwch dîm yn atebol yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn ddigon effeithiol wrth ddal arweinwyr eraill i gyfrif am y safonau a'r ansawdd a gyflawnir.

Mae'r ysgol yn dechrau ymateb yn addas i flaenoriaethau cenedlaethol.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ysgol wedi cryfhau ei systemau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant wedi cyfnod o golli ffocws ar yr agwedd hon. Fodd bynnag, nid yw'r gwelliannau diweddar i'r prosesau hyn wedi cael digon o amser i ddylanwadu ar agweddau pwysig megis ansawdd yr addysgu, cynllunio ar gyfer datblygu medrau neu sicrhau dilyniant ieithyddol y disgyblion.

Ers Medi 2014, mae'r uwch dîm rheoli wedi cywain tystiolaeth uniongyrchol briodol drwy graffu ar lyfrau disgyblion, arsylwi rhan fwyaf o'r athrawon a chanfasio barnau rhieni a disgyblion. O ganlyniad, mae'r uwch dim rheoli yn datblygu ymwybyddiaeth priodol o ansawdd yr addysgu a chynnydd disgyblion yn ystod gwersi. Mae arweinyddion yr adrannau yn arfarnu ansawdd y marcio yn eu hadrannau yn drylwyr. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf ohonynt wedi arsylwi aelodau eu hadrannau'n addysgu. O ganlyniad, nid oes ganddynt ddarlun cynhwysfawr o'r cryfderau a meysydd i'w gwella yn yr agwedd bwysig hon.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan yn cynnwys dadansoddiad priodol o ddata perfformiad. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn defnyddio'r holl ystod o ddata wrth arfarnu cyflawniad neu osod targedau. Yn gyffredinol, mae'r adroddiad yn cynnig arfarniadau gonest a chywir o waith yr ysgol. Fodd bynnag, mae ychydig o arsylwadau'n rhy arwynebol ac nid ydynt yn meintioli agweddau gwahanol. O ganlyniad, nid yw'n glir beth yw maint ac arwyddocâd yr arferion da neu'r meysydd i'w gwella dan sylw.

Er y lluniwyd cynllun datblygu ysgol gyfan cyn yr adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan, ceir ynddo flaenoriaethau priodol ar gyfer gwella a threfniadau addas i gyflawni'r mwyafrif o'r nodau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r camau gweithredu'n ddigon trylwyr nac eglur i sicrhau caiff y nodau eu cyflawni. Mae'r cynllun yn cyfeirio at weithgareddau monitro ond nid oes adegau penodol wedi'u clustnodi er mwyn olrhain cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau. Mae'r cynllun yn cyfeirio'n briodol at wella perfformiad mewn llawer o feysydd pwysig.

Mae adroddiadau hunanarfarnu'r adrannau'n cynnwys dadansoddiad manwl o ddata perfformiad ac adborth o fyrddau arholi. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnwys yr holl ystod o ddata sydd ar gael er mwyn arfarnu cynnydd disgyblion neu bennu targedau adrannol. Mae'r adroddiadau'n cynnwys arfarniadau manwl o ansawdd asesu athrawon ond nid ydynt yn cyfeirio at gynnydd disgyblion yn eu gwersi.

Ceir cysylltiad priodol rhwng cynlluniau gwella adrannol a'r blaenoriaethau ysgol ac mae trefniadau priodol i ddiwallu'r rhain. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau adrannol yn cynnwys gweithgareddau sydd yn ymateb yn ddigon penodol i lawer o'r meysydd i'w gwella a adnabuwyd yn yr adroddiadau hunanarfarnu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n addas ag ystod briodol o bartneriaid.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol â'r ysgolion cynradd sy'n cael eu hybu drwy raglen o ymweliadau gan ddisgyblion yr ysgolion cynradd. Mae cynllun pontio wedi ei ddiwygio'n briodol yn ddiweddar ar gyfer 2015-2017, wedi cyfnod o weithgareddau a oedd yn canolbwyntio yn bennaf ar les. Mae'r gwelliannau diweddar hyn wedi cryfhau'r ffocws ar ddatblygu cysylltiadau cwricwlaidd. Fodd bynnag, hyd yn hyn, mae'r pontio cwricwlaidd wedi bod yn annigonol, ac mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n ddigon da ar brofiadau disgyblion cyn dod i'r ysgol.

Ceir cydweithio buddiol gydag ysgolion uwchradd eraill a choleg lleol. Mae hyn wedi ychwanegu at y ddarpariaeth gwricwlaidd yng nghyfnod allweddol 4 a chael effaith briodol ar safonau ac agweddau disgyblion. Mae'r trefniadau ar gyfer gwarantu ansawdd cyrsiau'r bartneriaeth yn briodol.

Mae gwaith y gymdeithas rhieni wedi bod yn llwyddiannus wrth gynnal gweithgareddau codi arian i'r ysgol. Mae'r cysylltiadau â rhieni wedi gwella yn ystod y flwyddyn. Defnyddir ystod addas o ddulliau i gyfathrebu'n glir a chyson gyda rhieni. Fodd bynnag, er bod presenoldeb rhieni mewn nosweithiau rhieni wedi cynyddu, nid yw lleiafrif sylweddol o rieni'n mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae’r ysgol wedi ei staffio’n briodol i addysgu llawer o’r cwricwlwm. Mae’r strwythur staffio newydd yn caniatáu i’r ysgol ymateb yn well i anghenion cwricwlaidd a rheolaethol ac wedi sicrhau bod cyfran uwch o wersi yn cael eu haddysgu gan arbenigwyr pwnc. Mae’r cymorthyddion dosbarth yn darparu cefnogaeth o ansawdd da. Fodd bynnag, nid yw’r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn cynnwys y cymorthyddion.

Mae'r pennaeth strategol wedi cynllunio’n ofalus i sicrhau bod y diffyg ariannol wedi’i ddileu. Trwy ei harbenigedd ac arweiniad, mae'r ysgol yn rheoli ei chyllid yn effeithiol. Derbynia’r uwch dîm rheoli hyfforddiant gwerthfawr ar reolaeth ariannol.

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer datblygiad proffesiynol staff yn ddigon cynhwysfawr. Mae arweinwyr yr ysgol yn aelodau o’r grŵp fforwm sy'n cyfarfod yn briodol er mwyn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae gan yr ysgol ychydig weithgorau proffesiynol addas. Fodd bynnag, nid ydynt yn canolbwyntio’n ddigon trylwyr ar wella ansawdd yr addysgu, datblygu medrau disgyblion a sicrhau dilyniant ieithyddol priodol i ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn gweinyddu ei grant amddifadedd disgyblion yn briodol. Mae niferoedd y disgyblion sy’n gymwys i brydau ysgol am ddim yn gymharol fach ac yn amrywio’n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r camau y cytunwyd iddynt wedi gwella perfformiad disgyblion sydd dan anfantais yng nghyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, dros gyfnod o amser, nid yw’r camau wedi gwella’r perfformiad yn hanner y dangosyddion, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â mathemateg yng nghyfnod allweddol 4. Yn gyffredinol, mae'r grant wedi cael ei ddefnyddio yn fuddiol i wella eu presenoldeb.

Yn sgil y deilliannau digonol i’r disgyblion, mae’r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd wedi gwella'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae perfformiad yn y pedair blynedd ddiwethaf wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu ac yn 2014 yn unig mae perfformiad yn gosod yr ysgol ymysg y 50% uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yn 2014 yn agos at yr hyn a ddisgwylir o ystyried canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad ym mhob un o'r pynciau craidd yn unigol wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, yn 2014 yn unig mae perfformiad ar lefel 5 neu'n uwch wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu. Yn 2014, am y tro cyntaf, mae'r ysgol ymysg y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch yn dangos tuedd o welliant ond mae wedi bod yn gyson is na chyfartaledd y teulu ac yn gosod yr ysgol ymysg y 50% is o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad ar lefel 7 neu'n uwch wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 5 neu'n uwch wedi bod yn gyson is na chyfartaledd y teulu. Mewn dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yn gosod yr ysgol ymysg y 50% uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Yn 2014, mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch yn uwch na chyfartaledd y teulu am y drydedd flwyddyn yn olynol. Mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol ymysg y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Yn 2014, mae cynnydd sylweddol wedi bod yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni ar lefel 7 neu'n uwch, gyda pherfformiad hefyd yn gosod yr ysgol ymysg y 25% uchaf o ysgolion. Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella ond wedi bod yn gyson is na chyfartaledd y teulu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2014, am y tro cyntaf, mae perfformiad yn gosod yr ysgol ymysg y 50% uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Ar lefel 6 neu'n uwch a lefel 7 neu'n uwch, mae perfformiad wedi bod yn gyson is na chyfartaledd y teulu. Ar lefel 6 neu'n uwch, mae perfformiad yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi gosod yr ysgol ymysg y 50% uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, ar lefel 7 neu'n uwch, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 5 neu'n uwch, lefel 6 neu'n uwch a lefel 7 neu'n uwch wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu dros y pedair blynedd ddiwethaf. Ar lefel 5 neu'n uwch, mae perfformiad yn 2014 yn gosod yr ysgol ymysg y 50% uwch o ysgolion tebyg. Fodd bynnag, ar lefel 6 neu'n uwch a lefel 7 neu'n uwch, mae perfformiad yn 2014 yn gosod yr ysgol ymysg y 50% is o ysgolion tebyg.

Yn 2014, mae perfformiad yn y dangosydd sy'n cynnwys pump TGAU graddau A* - C yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi cynyddu'n dda o gymharu â pherfformiad 2013. Mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad wedi

gosod yr ysgol ymhlith y 50% uchaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.  Fodd bynnag, yn 2014 yn unig mae perfformiad wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y trothwy lefel 2 wedi cynyddu ychydig ond nid oes patrwm clir o welliant.  Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim ac wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu.

Yn 2014, gwelwyd cynnydd da yng nghyfran y disgyblion sy'n ennill graddau A* - C mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth o'u cyfuno wedi tair blynedd o berfformiad sefydlog.  Ers 2011, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.  Fodd bynnag, ac eithrio 2014, mae perfformiad wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu.

Mae perfformiad yn y sgôr bwyntiau wedi'i chapio wedi amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ond dros y pedair blynedd ddiwethaf mae'n dangos ychydig o welliant.  Fodd bynnag, mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol ymysg y 50% is o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim ac yn is na chyfartaledd y teulu ym mhob un flwyddyn.

Ers 2011, mae perfformiad yn y trothwy lefel 1 wedi aros yn gymharol gyson ac eithrio yn 2012.  Ym mhob blwyddyn, mae perfformiad wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu ac wedi gosod yr ysgol ymysg y 50% is o ysgolion tebyg.

Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi gwella rhwng 2011 a 2014.  Mae perfformiad mewn Cymraeg a Saesneg wedi amrywio o flwyddyn i flwyddyn er nad oes patrwm clir o welliant.  Yn 2014, mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 2 yn uwch na chyfartaledd y teulu am y tro cyntaf ers 2012.  Mae perfformiad wedi gosod yr ysgol ymysg y 50% uwch o ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf.  Mae perfformiad mewn Cymraeg wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu ers 2011 ac wedi gosod yr ysgol ymysg y 50% is o ysgolion tebyg.  Yn 2014, mae perfformiad mewn mathemateg yn uwch na chyfartaledd y teulu am y tro cyntaf ers 2012.  Mae perfformiad wedi bod gosod yr ysgol ymysg y 50% uwch o ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf.  Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi gwella'n sylweddol rhwng 2013 a 2014.  Yn 2014, mae perfformiad yn uwch na chyfartaledd y teulu am y tro cyntaf ac yn gosod yr ysgol ymysg y 25% uchaf o ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 3, nid oes bwlch arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y pynciau craidd yn unigol na'r dangosydd pwnc craidd ar lefel 5 neu'n uwch.  Fodd bynnag, mewn Saesneg ar lefel 6 neu'n uwch, ceir bwlch arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched.  Hefyd, ceir bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn ychydig o'r pynciau sylfaen.

Yng nghyfnod allweddol 4, ceir bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn llawer o ddangosyddion.  Fodd bynnag, mewn lleiafrif o'r dangosyddion, er bod yna

fwlch arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched, mae’r ddau grŵp o ddisgyblion yn perfformio’n well na’u cyfoedion mewn ysgolion tebyg.

Mae nifer y disgyblion sy’n gymwys i brydau ysgol am ddim yn gymharol fach ac yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyflawniad disgyblion sy’n gymwys i brydau ysgol am ddim yn dangos tuedd o welliant yn enwedig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, mae’r darlun yn fwy amrywiol. Gwelir y cyflawniad gorau mewn Saesneg ond nid yw perfformiad yn y pynciau craidd eraill wedi bod cystal.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 101 | 47 | 51 | 2 | 1 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 47% | 50% | 2% | 1% | |
| | | 44% | 52% | 4% | 1% | |
| The school deals well with any bullying | 100 | 23 | 49 | 23 | 5 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 23% | 49% | 23% | 5% | |
| | | 26% | 58% | 14% | 3% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 101 | 42 | 57 | 2 | 0 | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 42% | 56% | 2% | 0% | |
| | | 38% | 52% | 8% | 1% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 101 | 20 | 55 | 24 | 2 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 20% | 54% | 24% | 2% | |
| | | 23% | 56% | 18% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 101 | 33 | 56 | 9 | 3 | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 33% | 55% | 9% | 3% | |
| | | 45% | 45% | 9% | 2% | |
| I am doing well at school | 101 | 27 | 67 | 6 | 1 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 27% | 66% | 6% | 1% | |
| | | 32% | 62% | 5% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 101 | 42 | 51 | 8 | 0 | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 42% | 50% | 8% | 0% | |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 100 | 15 | 55 | 25 | 5 | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 15% | 55% | 25% | 5% | |
| | | 20% | 54% | 21% | 5% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 100 | 49 | 40 | 11 | 0 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 49% | 40% | 11% | 0% | |
| | | 45% | 47% | 7% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 101 | 7 | 47 | 38 | 9 | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 7% | 47% | 38% | 9% | |
| | | 10% | 57% | 27% | 6% | |
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 101 | 31 | 42 | 22 | 6 | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 31% | 42% | 22% | 6% | |
| | | 29% | 51% | 16% | 4% | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 101 | 15<br>15% | 52<br>51% | 29<br>29% | 5<br>5% | Mae'r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu. |
| | | 16% | 54% | 25% | 5% | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 101 | 31<br>31% | 67<br>66% | 3<br>3% | 0<br>0% | Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | 34% | 60% | 5% | 1% | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 99 | 41<br>41% | 47<br>47% | 10<br>10% | 1<br>1% | Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | 36% | 54% | 9% | 1% | |
| The staff respect me and my background | 101 | 37<br>37% | 51<br>50% | 11<br>11% | 2<br>2% | Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir. |
| | | 37% | 54% | 7% | 2% | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 100 | 40<br>40% | 47<br>47% | 13<br>13% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | 36% | 56% | 7% | 1% | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 42 | 11<br>26% | 22<br>52% | 7<br>17% | 2<br>5% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | 28% | 52% | 15% | 5% | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 3 | 1<br>33% | 2<br>67% | 0<br>0% | 0<br>0% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | 28% | 50% | 16% | 6% | |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 85 | 17 | 52 | 11 | 5 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 20% | 61% | 13% | 6% | | |
| | | 43% | 50% | 4% | 1% | | |
| My child likes this school. | 84 | 28 | 46 | 5 | 3 | 2 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 33% | 55% | 6% | 4% | | |
| | | 46% | 48% | 4% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 85 | 33 | 47 | 4 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 39% | 55% | 5% | 0% | | |
| | | 50% | 45% | 3% | 1% | | |
| My child is making good progress at school. | 85 | 22 | 54 | 3 | 2 | 4 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 26% | 64% | 4% | 2% | | |
| | | 45% | 48% | 4% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 85 | 13 | 53 | 7 | 1 | 11 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 15% | 62% | 8% | 1% | | |
| | | 22% | 54% | 11% | 3% | | |
| Teaching is good. | 82 | 17 | 39 | 14 | 5 | 7 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 21% | 48% | 17% | 6% | | |
| | | 33% | 57% | 5% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 85 | 28 | 47 | 7 | 0 | 3 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 33% | 55% | 8% | 0% | | |
| | | 50% | 45% | 2% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 85 | 14 | 55 | 8 | 1 | 7 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 16% | 65% | 9% | 1% | | |
| | | 31% | 53% | 8% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 85 | 20 | 38 | 16 | 3 | 8 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 24% | 45% | 19% | 4% | | |
| | | 32% | 48% | 9% | 2% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 85 | 22 | 47 | 9 | 1 | 6 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 26% | 55% | 11% | 1% | | |
| | | 33% | 53% | 7% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 85 | 31 | 45 | 2 | 1 | 6 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 36% | 53% | 2% | 1% | | |
| | | 41% | 52% | 3% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 78 | 16 | 40 | 2 | 1 | 19 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 21% | 51% | 3% | 1% | | |
| | | 32% | 46% | 7% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 85 | 19 | 42 | 21 | 2 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 22% | 49% | 25% | 2% | | |
| | | 34% | 50% | 11% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 85 | 25 | 49 | 8 | 2 | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 29% | 58% | 9% | 2% | | |
| | | 41% | 48% | 7% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 85 | 21 | 47 | 5 | 3 | 9 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 25% | 55% | 6% | 4% | | |
| | | 27% | 50% | 10% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 85 | 20 | 49 | 5 | 2 | 9 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 24% | 58% | 6% | 2% | | |
| | | 36% | 53% | 5% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 81 | 6 | 46 | 11 | 0 | 18 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 7% | 57% | 14% | 0% | | |
| | | 26% | 46% | 8% | 2% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 85 | 17 | 52 | 12 | 0 | 4 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 20% | 61% | 14% | 0% | | |
| | | 35% | 49% | 9% | 2% | | |
| The school is well run. | 84 | 14 | 37 | 14 | 8 | 11 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 17% | 44% | 17% | 10% | | |
| | | 40% | 48% | 5% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Catherine Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Gwyn Thomas | Arolygydd Tîm |
| Ceri Jones | Arolygydd Tîm |
| David Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Dylan Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Aled Williams | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys |

| | |
|---|---|
| | ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy’n byw yn 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy’n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |